BBC SCREENPLAY FORMAT

by

(Name of First Writer)

(Based on, If Any)

There should be one
contact address only
in the bottom left
hand corner.
Always include a phone
number and an e-mail
address if you have one.

28 INT. TY TRACY. DAY 28
TRACY/ FRANKIE/ PLANT TRACY

Tracy yn pigo fyny y post o'r llawr a'u rhoi ar y bwrdd. Lot o filiau coch. Yna mai'n gweld bod 'na leak arall yn y to.

TRACY
Fflipin heck.

Tracy yn mynd i nol powlen o'r gegin tra mae Dion a Brenda yn mynd i chwilio am fwyd/ diod o'r ffrij.

FRANKIE
S'gin ti syniad faint o big deal ydi o? Chwarae i'r sir?

Tracy yn rhoi y bowlen o dan y leak.

TRACY
Gei di chance arall gei?

BRENDA
S'nam jiws ar ol.

DION
Lle ma'r squash?

TRACY
(i Frankie)
Cer i ystyn y squash iddyn nhw.

FRANKIE
(ddim yn gwrando)
Ond fydd 'na rei erill yn dod i fyny blwyddyn nesa'n bydd? A fydd genod 'yn oed i efo mwy o brofiad.

TRACY
Yli Frankie, swn i'n gallu fforddio prynu nhw i ti swn i'n neud ond dwi methu iawn?

Tracy yn sylwi ar Brenda yn byta fferins.

TRACY (CONT'D)
Rho'r sweets 'na'n ol neu fyddi di'm isio te.

FRANKIE
A be sy i de? Chicken nuggets a beans eto ia?

TRACY
Paid siarad fel 'na efo fi.

Ond mae Frankie yn mynd reit fyny i'w gwyneb hi a harthio.

FRANKIE
Ti'n fam wael! Sgin ti byth bres, byth fwyd yn ty heblaw rybish out of date, a ddylia chdi ddim 'di bod efo gymaint o ddynion a cael tri o blant os odda ti methu fforddio cadw ni!

Cam yn ormod. Mae Tracy yn rhoi slap i Frankie ar draws ei gwyneb, a mae'r byd yn stopio yn y ty. Brenda a Dion efo'i cegau'n agored.

Tracy yn difaru ar ei hunwaith. Frankie mewn sioc. Erioed wedi cael ei slapio o'r blaen. Mai'n rhedeg allan o'r ty yn gafael yn ei boch.